

# CYNGOR GWYNEDD



## Adroddiad i gyfarfod o Gyngor Gwynedd

<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	<b>18 Gorffennaf 2019</b>
<b>Teitl yr Eitem:</b>	<b>Gosod Cyflog Swydd Cyfarwyddwr Rhaglen – Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru</b>
<b>Aelod Cabinet:</b>	<b>Cynghorydd Nia Jeffreys</b>
<b>Swyddog Cyswllt:</b>	<b>Geraint Owen</b>

### Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Bod y Cyngor, fel yr Awdurdod Cyfrifol am faterion cyflogaeth a chyllidol Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, yn cymeradwyo penderfyniad y Bwrdd i osod lefel cyflog ar gyfer swydd Cyfarwyddwr Rhaglen ar raddfa o £96,304 i £106,304.

### CEFNDIR A RHESYMEG

Mae Cyngor Gwynedd yn gweithredu fel Awdurdod Cyfrifol ar gyfer Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Golyga hynny bod y Cyngor hwn yn gweithredu fel y cyflogwr cyfreithiol ar gyfer swyddogion ar ran y Bwrdd, yn gyfrifol am osod y gyllideb a chynhyrchu cyfrifon yn ogystal â darparu'r gynhaliath ar gyfer cyfarfodydd ayyb. Gwneir hyn drwy gytundeb llywodraethu, a gytunwyd rhwng y chwe Cyngor a'r partneriaid eraill.

Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi penderfynu ei bod yn amserol i benodi Cyfarwyddwr Rhaglen ond wedi bod yn aflwyddiannus yn eu hymdrechion i recriwtio i'r swydd honno dros y ddeufis diwethaf.

Yn sgil hynny, bu i'r Bwrdd, yn ei gyfarfod ar yr 28ain o Fehefin, 2019, gytuno i ail hysbysebu'r swydd gan osod cyflog o hyd at £106,304. Derbyniwyd arweiniad gan gwmni Korn Ferry (Grŵp Hay yn flaenorol) cyn dod i'r casgliad hwn.

Er cyfarch yr arweiniad statudol "Atebolrwydd Tal o fewn Lywodraeth Leol yng Nghymru – Arweiniad dan Adran 40 Deddf Lleoliaeth 2011" a chan ddal sylw at Reoliadau Awdurdodau Lleol (Rheoliadau Sefydlog) (Cymru) 2006, fel ag y'i diwygiwyd yn 2014, mae gofyn adrodd ar unrhyw becyn cyflog sy'n uwch na £100,000 i'r Cyngor Llawn ac i dderbyn cymeradwyaeth ffurfiol i sefydlu'r cyflog ar y lefel a nodwyd.

Gan fod y Cyngor hwn yn gweithredu fel yr Awdurdod Cyfrifol ar ran y Bwrdd Uchelgais, cyfrifoldeb Cyngor Gwynedd yw cymeradwyo ar yr achlysur hwn er mwyn cyfarch gofynion technegol yr arweiniad statudol. Yn ei dro, cyfrifoldeb y Bwrdd Uchelgais fydd ariannu'r swydd ac ymdrin â'r drefn recriwtio.

Rhagwelir, o dderbyn y gymeradwyaeth ffurfiol honno, y bydd y Bwrdd Uchelgais yn ail-gychwyn y broses recriwtio yn ystod yr wythnosau nesaf gyda golwg i benodi Cyfarwyddwr Rhaglen ym mis Medi.

## **UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

### **Barn y swyddogion statudol**

#### **Y Swyddog Monitro:**

Mae'r adroddiad yn esbonio cyd-destun yr argymhelliad yma. Mae'n adlewyrchu gofyn technegol sydd o fewn y Cylchlythyr sydd yn pontio trefniadau cyd-weithio yn ôl y fframwaith gyfredol. Felly, mae rôl y Cyngor fel rhan o'r bartneriaeth i ddarparu sicrwydd i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd ynglŷn dilyn y trefniadau priodol.

#### **Y Pennaeth Cyllid:**

Bwriad Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yw sefydlu strwythur y Swyddfa Rhaglen, gan gynnwys swydd allweddol y Cyfarwyddwr Rhaglen, o fewn adnoddau cyfraniadau ariannol craidd yr awdurdodau lleol a'r partneriaid eraill. Mae cost cyflogi'r Cyfarwyddwr Rhaglen (a gweddill y Swyddfa Rhaglen) i'w ymrwymo ar sail cyfalafu tâl, ariannu yn rhannol drwy grant, ac ati, fel sydd wedi'i osod allan mewn adroddiad i gyfarfod 28 Mehefin o'r Bwrdd Uchelgais.

Swyddog Cyllid Statudol Cyngor Gwynedd yw Swyddog Cyllid Statudol y Bwrdd Uchelgais, ac adroddais i'r cyfarfod 28 Mehefin: "Mae'n debyg bydd y ffynonellau cyllid dewisol (cyfalafu tâl, ariannu yn rhannol drwy grant) ar gael, ond ... pe bai angen, mae cost barhaus y strwythur craidd a gynhigir yma dal yn fforddiadwy o fewn adnoddau craidd y Bwrdd".

Fodd bynnag, atgoffwyd aelodau'r Bwrdd hefyd y byddai pob sefydliad partner yn cyfrannu ar sail y cytundeb llywodraethu cyfredol tuag at unrhyw risg ariannol (gan gynnwys costau diswyddo posibl) fyddai'n dod i'r amlwg o ganlyniad i fethu sicrhau'r ffrydiau ariannu dewisol yn y pen draw, a bod y cytundeb yn darparu fod y corff atebol (Cyngor Gwynedd) yn derbyn indemniad gan y partneriaid eraill.

Mae angen penodiad buan er mwyn gwneud cynnydd gyda rhaglen o brosiectau gwerth mwy na £240m i ranbarth Gogledd Cymru, fyddai'n cynnwys buddsoddiad a swyddi gwerthfawr yng Ngwynedd, felly rwy'n cefnogi'r penderfyniad a geisir.